# Adroddiad Blynyddol

# Safonau'r Gymraeg

# Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

# 2023 – 2024

**Paratowyd yn unol â gofynion**

Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

**Ebrill 2024**

This document is also available in English.

**Cynnwys**


| | | |
|---|---|---|
| **1.0** | **Cyflwyniad** | **3** |
| **2.0** | **Cefndir / Cyd-destun yr Adroddiad** | **4** |
| **3.0** | **Crynodeb** | **5** |
| 3.1 | Cynnydd / Datblygiadau yn ystod y flwyddyn | 5 |
| 3.2 | Edrych i'r Dyfodol | 7 |
| **4.0** | **Gwybodaeth am y flwyddyn 2023-2024** | **8** |
| 4.1 | Arwain mewn gwlad ddwyieithog | 8 |
| 4.2 | Datblygiadau Digidol | 8 |
| 4.3 | Datblygu Cysylltiadau gydag Ysgolion Cynradd y Sir | 8 |
| 4.4 | Dathlu Dydd Miwsig Cymru 2024 | 9 |
| 4.5 | Dathlu Diwrnod Shwmae Su'mae 2023 | 9 |
| 4.6 | Dathlu Dydd Gŵyl Dewi 2024 | 9 |
| 4.7 | Ymgyrch Defnyddia dy Gymraeg – Comisiynydd y Gymraeg | 9 |
| 4.8 | Teclyn Sgiliau Cymraeg a Negeseuon E-bost | 9 |
| 4.9 | Logo Iaith Gwaith ar e-bost | 9 |
| 4.10 | Gwaith Cyfieithu | 10 |
| 4.11 | Cyfieithu ar y pryd | 10 |
| 4.12 | Gwersi Cymraeg | 10 |
| 4.13 | Cynllun Sgwrsio | 11 |
| 4.14 | Gwasanaethau'r Cyngor | 11 |
| 4.15 | Sgiliau Cymraeg Staff y Cyngor | 16 |
| 4.16 | Recriwtio - Swyddi a hysbysebwyd yn ystod y flwyddyn | 19 |
| 4.17 | Hyfforddiant Cymraeg a Gyflawnwyd | 20 |
| **5.0.** | **Cadw Cofnodion** | **22** |
| 5.1 | Cwynion | 22 |
| 5.2 | Ymchwiliadau gan Gomisiynydd y Gymraeg | 22 |
| **6.0** | **Casgliad** | **24** |

## 1.0 Cyflwyniad

1.1 Pwrpas yr adroddiad hwn yw dangos i ba raddau mae'r Cyngor wedi cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg yn ystod 2023-2024, a'r gwaith a wnaed i'w diwallu.

1.2 Rydym yn hynod falch o'r llu o ddatblygiadau a llwyddiannau a gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn - cyflwynir rhagor o wybodaeth amdanynt yng nghrombil y ddogfen hon.

## 2.0 Cefndir / Cyd-destun yr Adroddiad

2.1 Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy wedi mabwysiadu'r egwyddor, wrth gynnal busnes cyhoeddus a gweinyddu cyfiawnder yng Nghymru, na fydd yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

2.2 Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn sefydlu fframwaith cyfreithiol i osod dyletswydd ar y Cyngor, ymhlith sefydliadau eraill, i gydymffurfio â Safonau yn ymwneud â'r Gymraeg. Mae'r Cyngor wedi cael 167 o Safonau i gydymffurfio â nhw yn y meysydd a ganlyn – Cyflenwi Gwasanaethau, Gweithredu, Llunio Polisi, Hybu, Cadw Cofnodion. Mae'r Safonau i'w gweld ar ein gwefan.

2.3 Mae'r dyletswyddau sy'n deillio o'r Safonau yn golygu na ddylai'r Cyngor drin yr iaith Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, ynghyd â hybu a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg (gan ei gwneud yn haws i bobl ddefnyddio eu sgiliau Cymraeg mewn bywyd bob dydd).

2.4 Pwrpas y Safonau yw:

- rhoi mwy o eglurder i sefydliadau ar eu dyletswyddau am yr iaith Gymraeg
- rhoi mwy o eglurder i siaradwyr Cymraeg am y gwasanaethau y medrant ddisgwyl eu cael yn Gymraeg
- sicrhau mwy o gysondeb o wasanaethau Cymraeg a gwella eu hansawdd.

2.5 Mae Safonau'r Gymraeg yn disodli Cynllun Iaith Gymraeg y Cyngor a gymeradwywyd gyntaf gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg ar 23 Gorffennaf 1997, ac a ddiwygiwyd ar 14 Mai 2004 ac yna ar 23 Ebrill 2009.

2.6 Mae'r adroddiad monitro hwn yn adlewyrchu'r cynnydd a wnaed yn erbyn camau gweithredu yn deillio o Safonau'r Gymraeg. Casglwyd y wybodaeth sy'n cael ei chynnwys yn yr adroddiad hwn o ganlyniad i'r monitro parhaus y mae'r Cyngor yn ei gynnal.

## 2.8 Atebolrwydd

2.8.1 Rheolwr Gwasanaeth y Gymraeg a Chyfieithu a'r Swyddog Hyrwyddo a Datblygu'r Gymraeg sy'n gyfrifol am ysgrifennu'r ddogfen hon. Yna, mae hi'n cael ei chyflwyno i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cyllid ac Adnoddau ac yna i aelodau'r Cabinet i'w chymeradwyo.

2.8.2 Ar ôl ei chymeradwyo, mae'r ddogfen hon ar gael i'r cyhoedd yn swyddfeydd cyhoeddus y Cyngor ac ar ei wefan. Mae'r ddogfen hefyd yn cael ei chylchredeg i'r gwasanaethau unigol i gyd ac yn ogystal â hyn, cyhoeddir gwybodaeth am yr adroddiad monitro cyffredinol ynghyd â'r argymhellion ar y fewnrwyd a'i dosbarthu drwy gyfrwng negeseuon ar y system negeseuon mewnol, yn y Newyddlen Staff. Bydd dolen gyswllt i'r ddogfen hon yn cael ei rhannu gyda staff derbynfeydd y Cyngor a byddwn yn rhoi gwybod i drigolion Conwy amdani.

## 3.0 Crynodeb

### 3.1 Cynnydd / Datblygiadau yn ystod y flwyddyn

3.1.1 Rydym yn falch o fedru adrodd ar nifer o ddatblygiadau yn ystod y flwyddyn. Mae sawl ymgyrch wedi golygu bod cynnydd yn nifer y cyfleoedd sydd ar gael i staff ddefnyddio eu sgiliau Cymraeg a'i gwneud hi'n haws i bobl ddefnyddio'r sgiliau hynny mewn bywyd bob dydd. Dyma grynodeb ohonynt:

a) **Fforwm Strategol y Gymraeg** – Ym mis Mehefin ar y cyd â'r Cynghorydd Aaron Wynne, fe wnaethom sefydlu fforwm newydd sef Fforwm Strategol y Gymraeg er mwyn cyd-fynd â Strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg newydd y Cyngor. Bwriad y fforwm ydi dod â mudiadau'r sir at ei gilydd er mwyn trafod sut fedrwn ni gyd-weithio er mwyn hyrwyddo'r Gymraeg ar draws y sir a rhoi'r Strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg newydd ar waith. Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf y fforwm newydd ym mis Mehefin 2023 gyda chynrychiolwyr o sawl mudiad gan gynnwys, Urdd Conwy, Menter Iaith Conwy, Mudiad Meithrin, Coleg Llandrillo Menai, Gwasanaeth Diwylliant a Llyfrgelloedd y Cyngor, Swyddogion Addysg Conwy, staff ysgolion uwchradd a chynradd y sir.

b) **Newyddlen y Gymraeg** – Rydym wedi parhau gyda'r newyddlen ers ei chychwyn y llynedd ac mae hi'n parhau i ddatblygu. Bwriad y newyddlen yw dathlu'r Gymraeg yng Nghonwy a rhoi gwybodaeth i staff am bob math o bethau sydd ar y gweill. Ein rhifyn diweddaraf oedd rhifyn y Nadolig. Roedd y rhifyn yma'n cynnwys rhestr chwarae o ganeuon Cymraeg Nadoligaidd i staff wrando arnynt, gwybodaeth am ein tudalen Facebook 'Cymraeg i Bawb – Conwy', chwilair Nadolig a gwybodaeth am ddigwyddiadau fel 'Bêc off' Nadolig y dosbarth Cymraeg a llwyddiannau'r staff a lwyddodd yn eu harholiadau dysgu Cymraeg yn ddiweddar. Fe wnaethom barhau efo ein hadran 'Deg difyr efo Dysgwr' gan holi dau aelod o staff sy'n gwpl priod, am eu profiad o ddysgu Cymraeg drwy gynllun Cymraeg Gwaith y Cyngor. Yn ychwanegol roedd ein tudalen 'Y Gymraeg yn y Gweithle' lle roedd rhai o staff y Cyngor yn sôn am sut mae'r Gymraeg eu helpu nhw yn eu gwaith bob dydd.

c) **Gair yr wythnos** – Eleni mi gychwynnon ni rannu posteri 'Gair yr wythnos' drwy ein sianel Teams ar gyfer holl weithwyr y Cyngor. Roedd y posteri yn amrywio yn wythnosol, ac roedd geiriau, idiomau, dywediadau ac ymadroddion yn cael eu rhannu.

ch) **Datblygu'r fewnrwyd** – Yn ystod y flwyddyn rydym wedi creu tudalen newydd ar y fewnrwyd yn benodol am ddysgu Cymraeg. Mae gwybodaeth am ddysgu Cymraeg ac unrhyw beth tebyg bellach ar gael i staff mewn un lle o dan bennawd 'Dysgu Cymraeg' ar y fewnrwyd. Mae yna wybodaeth am gynllun Cymraeg Gwaith y Cyngor, gwersi Cymraeg, tabl sgiliau Cymraeg y Cyngor, rhestr o apiau defnyddiol i ddysgwyr, gwybodaeth am Cysill a Cysgeir a llawer mwy.

d) **Gwefan Addysg Gymraeg** – Y llynedd fe wnaethom ni ddatblygu tudalen newydd sbon ar wefan ganolog y sir am addysg Gymraeg. Bwriad y dudalen ydi darparu gwybodaeth i rieni/gwarcheidwaid am addysg Gymraeg a'r manteision o fod yn ddwyieithog. Eleni rydym ni a swyddogion Addysg y Cyngor wedi gweithio gyda'r adran TG er mwyn datblygu'r dudalen. Mae'r dudalen bellach yn fyw ac yn cynnwys gwybodaeth am addysg Gymraeg o cyn oed ysgol hyd at addysg bellach/uwch ac am addysg drochi. Yn ogystal â hyn mae yna dudalen ar gyfer rhieni/gwarcheidwaid sy'n ateb cwestiynau cyffredinol am Addysg Gymraeg gan gynnwys cwestiynau fel "Pa gefnogaeth sydd ar gael os nad wyf i'n gallu siarad Cymraeg? Sut alla i helpu efo gwaith cartref?".

**dd) Gwefan y Gymraeg** – Yn ogystal â datblygu tudalen Addysg newydd rydym ni hefyd wedi datblygu tudalen lanio newydd sbon ar wefan ganolog y sir am y Gymraeg. Enw'r dudalen ydi '[Yr Iaith Gymraeg - Iaith Fyw Sy'n Ffynnu - Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy]'. Mae hi'n llawn gwybodaeth am y Gymraeg yng Nghonwy.

**e) Cefndiroedd Teams** – fe wnaethom ddatblygu ein hamrywiaeth o gefndiroedd Teams eleni i gynnwys mwy gyda logo Iaith Gwaith a logo dysgu Cymraeg er mwyn gwneud y Gymraeg yn fwy gweledol yn ein cyfarfodydd ar-lein. Cawsom adborth da iawn amdanynt.

**f) Arwain mewn gwlad ddwyieithog** – Eleni, gwnaeth y Cyngor gais llwyddiannus i gymryd rhan mewn rhaglen gyffrous iawn o'r enw Arwain mewn gwlad ddwyieithog. Dewiswyd dau bennaeth gwasanaeth sy'n dysgu Cymraeg i gymryd rhan yn y rhaglen er mwyn dod yn llysgenhadon dros ddiwylliant sefydliadol lle gall dwyieithrwydd ffynnu. Cawsant ddysgu am y datblygiadau diweddaraf am y Gymraeg gan arbenigwyr, ond roedd y rhaglen yn gwneud dipyn mwy na chyflwyno gwybodaeth yn unig. Roedd hefyd yn edrych ar syniadau am y Gymraeg, profiadau ohoni a gobeithion ar ei chyfer, drwy lens arweinyddiaeth. Wrth drafod, roedden nhw'n sicrhau bod buddion a heriau posib yn dod yn fyw wrth ddatblygu'r diwylliant arweinyddiaeth o gwmpas y Gymraeg yn y Cyngor. Bu'r rhaglen yn rhan annatod o ddatblygu ein Strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg newydd – Ein Llais Conwy.

**ff) Cynllun Cymraeg Gwaith** – Fel rhan o'r cynllun Cymraeg Gwaith yn 2023-2024, manteisiodd 78 aelod o staff ar ddarpariaeth Cymraeg Gwaith. Cynhaliwyd 4 cwrs o dan arweiniad tiwtor ar lefel Mynediad, Canolradd ac Uwch.

**g) Cyrsiau Blasu'r Gymraeg** – Yn ystod 2023-2024 cofrestrodd 40 unigolyn ar 79 cwrs Blasu, sy'n cael eu cwblhau yn annibynnol ar-lein. O'r 79 cwrs mae 41 cwrs wedi eu cwblhau, a'r gweddill wedi eu cwblhau yn rhannol. Mae'r cyrsiau Blasu ar gael am ddim i staff y Cyngor ac yn ychwanegol at y ddarpariaeth sy'n cael ei harwain gan y tiwtor. Mae'r nifer wnaeth gofrestru ar gyfer y Cyrsiau Blasu eleni yn uwch o lawer na'r llynedd, sy'n galonogol iawn.

**ng) Cynllun Sgwrsio** – Yn ystod y flwyddyn fe wnaethom ddatblygu'r Cynllun Sgwrsio lle'r oedd dysgwr ar lefel Canolradd neu uwch yn cael y cyfle i baru â siaradwr Cymraeg rhugl er mwyn sgwrsio'n anffurfiol. Erbyn hyn mae gennym 25 pâr sy'n cyfarfod yn rheolaidd fel rhan o'r Cynllun Sgwrsio yn y gwaith. Mae ein parau wedi cynyddu'n sylweddol ers y llynedd gydag 11 pâr newydd.

**h) Diweddaru Gwybodaeth am Lefelau Sgiliau Cymraeg** – Eleni, fe wnaethom ddiweddaru'r wybodaeth am lefelau sgiliau Cymraeg er mwyn ei gwneud hi'n haws i staff ddewis y lefel gywir ar eu cyfer. Rydym hefyd wedi hepgor lefel 0. Byddwn yn defnyddio'r cyrsiau Blasu i helpu unrhyw aelod o staff wnaeth nodi lefel eu sgiliau siarad fel 0 godi o 0 i o leiaf lefel 1. Bydd cyfle i unrhyw un sydd eisiau dysgu Cymraeg gofrestru ar gyfer un o'n cyrsiau mewnol hefyd. Rydym yn bwriadu cynnig dau gwrs Mynediad newydd i ddechreuwyr pur yn fuan iawn y flwyddyn nesaf.

**i) Diweddaru ein Ffurflen Asesu Effaith ar Gydraddoldeb** – er mwyn sicrhau ein bod yn cynnal asesiad cywir o effaith ar gydraddoldeb gyda gwahanol bolisïau ac ymgynghoriadau, fe wnaethom ddiweddaru ein ffurflen asesu effaith ar gydraddoldeb. Bellach, bydd Rheolwr Gwasanaeth y Gymraeg a Chyfieithu a'r Swyddog Hyrwyddo a Datblygu'r Gymraeg yn cael copïau o bob ffurflen berthnasol er mwyn gwirio'r cynnwys a chynnig cyngor pan fo angen.

### 3.2 Edrych i'r Dyfodol

3.2.1 Yn ystod y flwyddyn nesaf, rydym yn bwriadu datblygu'r materion a ganlyn, ymysg llu o ddatblygiadau llai:

**a)** **Ein Llais Cymraeg – Strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg** – Rydym yn edrych ymlaen yn arw at gyhoeddi ein strategaeth hyrwyddo'r Gymraeg newydd sef Ein Llais Cymraeg. Mae'n ddogfen statudol, sy'n ofynnol o dan y gyfraith, ond nid dyma pam rydym yn gwneud hyn. Rydym yn gwneud hyn gan ein bod yn falch o'n diwylliant Cymreig ac yn falch fod Conwy yn Gyngor dwyieithog ac rydym yn angerddol ynglŷn â chefnogi pobl. Fe hoffem ni i bawb ymuno â ni, waeth faint o Gymraeg y maent yn ei wybod, o le bynnag maen nhw'n dod a lle bynnag maen nhw'n byw ar hyn o bryd yn sir Conwy.

**b)** **Fforwm Strategol y Gymraeg** - Rydym yn edrych ymlaen at ddatblygu'r fforwm, a'r syniadau sy'n deillio ohono dros y flwyddyn nesaf.

**c)** **Gair yr wythnos** – Rydym ni'n bwriadu parhau gyda 'Gair yr wythnos' dros y flwyddyn nesaf ond yn dilyn adborth gan staff, rydym ni'n mynd i ail edrych ar sut y caiff ei rannu. Eleni, roeddem ni'n rhannu'r posteri ar sianel 'Hysbysiadau' ar Teams y Cyngor ond nid oedd llawer iawn o staff yn eu gweld felly rydym ni'n mynd i geisio dod o hyd i rywle gwell i'w postio. Hefyd, byddwn yn creu tudalen ar y fewnrwyd fydd yn gartref i'r holl bosteri ar ôl iddyn nhw gael eu postio er mwyn i staff fedru dod o hyd iddynt mewn un lle.

**ch)** **Recriwtio i Swyddi Cymraeg hanfodol** – Byddwn yn gweithio gyda rheolwyr dros yr wythnosau nesaf i sicrhau nad oes yr un aelod o staff yn cael eu penodi i swyddi Cymraeg hanfodol os nad ydynt yn meddu ar y sgiliau cywir eto. Dylai'r eglurhad newydd o bob lefel Cymraeg helpu gyda hyn hefyd.

d) **Gwersi Cymraeg -** Rydym yn bwriadu cynnig dau gwrs Mynediad newydd i ddechreuwyr pur yn fuan iawn y flwyddyn nesaf.

## 4.0 Gwybodaeth am y flwyddyn 2023-2024

### 4.1 Arwain mewn gwlad ddwyieithog

4.1.1 Eleni, fe wnaeth y Cyngor gais llwyddiannus i gymryd rhan mewn rhaglen gyffrous iawn o’r enw Arwain mewn gwlad ddwyieithog. Dewiswyd dau bennaeth gwasanaeth sy’n dysgu Cymraeg i gymryd rhan yn y rhaglen er mwyn dod yn llysgenhadon dros ddiwylliant sefydliadol lle gall dwyieithrwydd ffynnu. Cawsant ddysgu am y datblygiadau diweddaraf am y Gymraeg gan arbenigwyr, ond roedd y rhaglen yn gwneud dipyn mwy na chyflwyno gwybodaeth yn unig. Roedd hefyd yn edrych ar syniadau am y Gymraeg, profiadau ohoni a gobeithion ar ei chyfer, drwy lens arweinyddiaeth. Wrth drafod, roedden nhw’n sicrhau bod buddion a heriau posib yn dod yn fyw wrth ddatblygu’r diwylliant arweinyddiaeth o gwmpas y Gymraeg yn y Cyngor. Bu’r rhaglen yn rhan annatod o ddatblygu ein Strategaeth Hyrwyddo’r Gymraeg newydd – Ein Llais Conwy.

### 4.2 Datblygiadau digidol

4.2.1 **Tudalen Facebook** – Mae gennym dudalen Facebook o’r enw Cymraeg i Bawb – Conwy. Bwriad y dudalen ydi hyrwyddo a dathlu’r Gymraeg o fewn y sir. Mae’r dudalen yn postio’n rheolaidd bob wythnos, ac yn rhannu cynnwys gwreiddiol yn ogystal â gwybodaeth gan fudiadau eraill megis Comisiynydd y Gymraeg, Menter Iaith, Yr Urdd a llawer mwy.

4.2.2 **Sianel Dysgu Cymraeg ar Teams** – Mae gennym sianel ar Microsoft Teams o’r enw ‘Dysgu Cymraeg’. Mae’r sianel ar gyfer staff y Cyngor sy’n mynychu gwersi Cymraeg mewnol y Cyngor. Caiff y dudalen ei rheoli gan y tiwtor Cymraeg ond mae gan Swyddog Hyrwyddo a Datblygu’r Gymraeg hefyd fynediad at y sianel er mwyn rhannu gwybodaeth am y Gymraeg gyda’r dysgwyr, e.e. Band y Mis, gwybodaeth am gyfleoedd i ymarfer Cymraeg yn y gwaith a thu hwnt ac ati.

4.2.3 **Gwefan Addysg Gymraeg** – Yn ystod y flwyddyn rydym wedi datblygu gwefan addysg Gymraeg newydd sbon ar wefan ganolog y sir. Bwriad y dudalen ydi darparu gwybodaeth i rieni/gwarcheidwaid am addysg Gymraeg a’r manteision o fod yn ddwyieithog.

### 4.3 Datblygu Cysylltiadau gydag Ysgolion Cynradd y Sir

4.3.1 Mae Swyddog Hyrwyddo a Datblygu’r Gymraeg yn parhau i gysylltu’n rheolaidd gyda’r holl ysgolion cynradd ac uwchradd o fewn y sir. Ceir gwybodaeth am ychydig o’r gwaith isod.

### 4.4 Dathlu Dydd Miwsig Cymru 2024

4.4.1 Ar 9 Chwefror eleni, roedd hi’n Ddydd Miwsig Cymru. Er mwyn codi ymwybyddiaeth am y diwrnod, penderfynwyd creu rhestr chwarae fer gyda 6 chân Gymraeg i’r ysgolion ei rhannu gyda’r disgyblion a gofyn i’r disgyblion bleidleisio am eu hoff gân. Y bwriad oedd hyrwyddo Dydd Miwsig Cymru a’i gwneud hi ychydig yn haws i staff ysgolion drwy ddewis y caneuon drostynt. Cafodd y caneuon a dolen i’r holiadur eu gosod ar boster a’u rhannu gyda’r ysgolion cynradd ac uwchradd dros e-bost. Fe wnaeth 12 ysgol gynradd a 4 ysgol uwchradd yn y sir gymryd rhan yn y prosiect eleni, sy’n uwch nag y llynedd ac yn galonogol iawn. Cafwyd 376 ymateb i’r holiadur, 292 (77.7%) yn ateb fel unigolion, 71 (18.9%) yn ateb fel dosbarth ac 13 (3.5%) yn ateb fel ysgol. Mae hyn yn golygu bod miloedd o blant a phobl ifanc ar draws y sir wedi cymryd rhan yn nathliadau Dydd Miwsig Cymru eleni. Cafwyd adborth cadarnhaol iawn gan yr athrawon ac roedden nhw’n

gwerthfawrogi'r rhestr chwarae yn fawr. Braf hefyd oedd gweld ysgolion na wnaeth gymryd rhan y llynedd yn cymryd rhan eleni. Cafwyd sylwadau gwych gan rai o'r disgyblion hefyd.

4.4.2 Rhannwyd y rhestr chwarae gyda dosbarthiadau dysgu Cymraeg mewnol y Cyngor hefyd. Cafodd y rhestr chwarae ei rhannu gyda'r dysgwyr drwy diwtor mewnol y Cyngor ac hefyd drwy'r sianel 'Dysgu Cymraeg' ar Teams.

## 4.5 Dathlu Diwrnod Shwmae Su'mae 2023

4.5.1 Diwrnod hyrwyddo a dathlu'r Gymraeg yng Nghymru yw Diwrnod Shwmae Su'mae. Mae Diwrnod Shwmae Su'mae yn cael ei ddathlu bob blwyddyn ar 15 Hydref, oedd ar ddydd Sadwrn eleni. Rhannwyd neges ar gyfrifon cymdeithasol y Cyngor a neges fewnol i staff yn annog pobl i gychwyn sgwrs yn Gymraeg gyda chopi o bosteri 'Say it in Cymraeg' y Mentrau Iaith oedd yn cynnwys geirfa Gymraeg i'w defnyddio yn y swyddfa, y caffi, y dafarn, y siop ac mewn cyfarfod.

## 4.6 Dathlu Dydd Gŵyl Dewi 2024

4.6.1 Cynhaliodd y Dysgwyr Cymraeg sesiwn Panad a Sgwrs yn yr Ystafell Ddosbarth ym Modlondeb ar 1 Mawrth 2024. Roedd hi'n wych gweld bod y dysgwyr i gyd wedi rhoi cynnig ar ddefnyddio'u sgiliau Cymraeg ac wedi cynnal sgyrsiau yn y Gymraeg dros baned a chacen.

## 4.7 Ymgyrch Defnyddia dy Gymraeg – Comisiynydd y Gymraeg

4.7.1 Mi lansiodd Comisiynydd y Gymraeg ymgyrch newydd eleni, sef ymgyrch 'Defnyddia dy Gymraeg'. Roedd yr ymgyrch yn cael ei chynnal dros bythefnos, rhwng 27 Tachwedd ac 11 Rhagfyr. Bwriad yr ymgyrch oedd hybu a hyrwyddo'r Gymraeg a gwasanaethau Cymraeg yn ogystal â chodi hyder a chynyddu'r defnydd o wasanaethau Cymraeg. Fe wnaeth Gwasanaeth TG y Cyngor osod cefndir ar fwrdd gwaith pawb yn y Cyngor oedd yn nodi'r ymgyrch a bod y Gymraeg yn perthyn i bawb. Rhannwyd negeseuon ar gyfrifon cymdeithasol y Cyngor dros y bythefnos, yn ogystal â negeseuon mewnol i staff dros e-bost.

## 4.8 Teclyn Sgiliau Cymraeg a Negeseuon E-bost

4.8.1 Bu'r teclyn hwn ar waith ers blynyddoedd maith bellach, ac mae'n parhau i fod yn llwyddiannus iawn. Drwy gymorth y Gwasanaeth Technoleg Gwybodaeth, mae'r Teclyn Sgiliau Cymraeg wedi'i gysylltu â'r rhestr staff sydd â chyfrif e-bost. Felly, os ydi aelod o staff yn ysgrifennu neges e-bost at aelod arall o staff y Cyngor, a bod yr aelod hwnnw o staff yn siarad Cymraeg yn rhugl, bydd neges yn ymddangos uwchben ei enw ar y neges yn dweud: "Rydw i'n siarad Cymraeg / I can speak Welsh". Rydym yn ceisio datblygu'r teclyn hwn ar gyfer dysgwyr bellach hefyd.

4.8.2 Mae'r teclyn o gymorth mawr i staff y Cyngor wrth gyfathrebu â staff eraill ac yn golygu ei bod hi'n haws o lawer gwybod beth yw sgiliau Cymraeg y staff yr ydych yn cysylltu â nhw.

## 4.9 Logo Iaith Gwaith/Brawddeg ar waelod e-bost

4.9.1 Mae staff sy'n medru'r Gymraeg yn cynnwys logo ar waelod eu llofnod e-bost i adael i gwsmeriaid a chydweithwyr wybod eu bod yn medru'r Gymraeg. Yn yr un modd, rydym wedi datblygu logo ar gyfer dysgwyr sy'n nodi 'Dw i'n dysgu Cymraeg'. Mae nifer fawr o ddysgwyr wedi cynnwys y logo hwn ar waelod eu llofnod e-bost.

4.9.2 Yn unol â'r Safonau, mae gennym frawddeg ar waelod pob neges e-bost ers cychwyn y Safonau yn nodi na fydd derbyn negeseuon yn Gymraeg yn peri unrhyw oedi wrth ymateb i'r neges. Er mwyn sicrhau bod y neges yn cael ei chynnwys ar bob cyfrif, mae'r neges honno'n rhan awtomatig o bob neges sy'n gadael pob un o gyfrifon e-bost y Cyngor.

**4.10 Gwaith Cyfieithu**

4.10.1 Dros y chwe blynedd diwethaf, mae nifer y geiriau ydym ni wedi'u cyfieithu ar gyfer Cyngor Conwy wedi parhau i gynyddu'n sylweddol. Mae ein deunydd ysgrifenedig ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg bob amser, boed ar gyfer y cyhoedd neu'n fewnol ar gyfer staff.

**4.11 Cyfieithu ar y pryd**

4.11.1 Mae ein cyfarfodydd cyhoeddus yn parhau i gael eu cynnal o aml-leoliad sy'n golygu bellach bod mynychwyr ein cyfarfodydd cyhoeddus yn medru bod yn Siambr y Cyngor ym Modlondeb neu ar-lein yn ystod pob cyfarfod, ac mae'r rhai sy'n dymuno gwrando ar y cyfieithiad yn medru gwneud hynny drwy'r pensetiau arferol yn y siambr neu drwy Zoom ar-lein.

**4.12 Gwersi Cymraeg**

4.12.1 Nod y Cynllun Cymraeg Gwaith yw cryfhau sgiliau Cymraeg yn y gweithle. Mae'r cynllun yn cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru, ac fe'i datblygwyd gan y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol. Mae'n cynnig hyfforddiant addas, hyblyg, sydd wedi ei ariannu'n llwyr.

4.12.2 Fel rhan o'r cynllun Cymraeg Gwaith yn 2023-2024, manteisiodd 78 aelod o staff ar ddarpariaeth Cymraeg Gwaith. Cynhaliwyd 4 cwrs o dan arweiniad tiwtor ar lefel Mynediad, Canolradd ac Uwch. Hefyd, cynhaliwyd cwrs Cyfunol 50/50 ar lefel Mynediad, a ddechreuodd ym mis Medi 2023. Dyma'r tro cyntaf i ni gynnig cwrs cyfunol o'r fath a bu'n llwyddiannus iawn. Eleni, am y tro cyntaf, cynhaliwyd cwrs Hybu Hyder llwyddiannus, rhwng mis Tachwedd 2023 a Ionawr 2024. Fel rhan o'r cynllun, mae gan staff y Cyngor fynediad, am ddim, at sawl cwrs Blasu, 5 awr o hyd, sy'n cael eu cwblhau'n annibynnol ar-lein. Roedd hi'n galonogol gweld cymaint wedi cofrestru a nifer wedi cwblhau'r cwrs Blasu yn ystod y flwyddyn.

14.12.3 Fel rhan o'n hymrwymiad i ddysgu Cymraeg, mae gennym Gefnogwr Siaradwyr Cymraeg Newydd sy'n cael ei ddewis o blith y Cynghorwyr. Penodwyd cefnogwr newydd yn ddiweddar, ac rydym eisoes wedi dechrau trafod syniadau newydd gyda'r Cynghorydd Louise Emery gafodd ei phenodi i'r rôl, ac sy'n dysgu Cymraeg ei hun ers blwyddyn. Rydym yn edrych ymlaen at ddatblygu'r swyddogaeth ymhellach gyda'r Cynghorydd Louise dros y misoedd nesaf.

4.12.4 Yn ystod 2023-2024 mae 40 unigolyn wedi cofrestru ar 79 cwrs Blasu, sy'n cael eu cwblhau yn annibynnol ar-lein. O'r 79 cwrs mae 41 cwrs wedi eu cwblhau, a'r gweddill wedi eu cwblhau yn rhannol. Rydym yn parhau i fonitro'r cyrsiau hyn er mwyn gwneud yn siŵr bod pob unigolyn sydd wedi cofrestru ar gwrs yn cwblhau o leiaf 1 cwrs 5 awr. Mae 11 unigolyn o'r 40 wedi cwblhau o leiaf 2 gwrs 5 awr. Bydd y 29 arall yn cael eu hannog i gwblhau'r cyrsiau hefyd. Mae'r cyrsiau Blasu ar gael am ddim i staff y Cyngor ac yn ychwanegol at y ddarpariaeth sy'n cael ei harwain gan y tiwtor. Mae'r nifer sydd wedi cofrestru ar gyfer y Cyrsiau Blasu eleni yn uwch o lawer na'r llynedd, sy'n galonogol iawn.

## 4.13 Cynllun Sgwrsio

4.13.1 Mae manteisio ar gyfleoedd i ddefnyddio ac ymarfer Cymraeg yn holl bwysig er mwyn sicrhau datblygiad parhaus y dysgwyr sy'n rhan o'r cynllun Cymraeg Gwaith. Ddechrau 2021, fe wnaethom lansio Cynllun Sgwrsio yn y Gwaith lle mae dysgwr ar lefel Canolradd yn cael ei baru gyda siaradwr Cymraeg rhugl er mwyn sgwrsio'n anffurfiol. Ar hyn o bryd mae gennym 25 pâr sy'n cyfarfod yn rheolaidd fel rhan o'r Cynllun Sgwrsio. Mae hi wedi bod yn braf iawn gweld y dysgwyr yn ffynnu yn ystod y flwyddyn wrth iddyn nhw ddod i ben eu lefel bresennol o wersi Cymraeg.

## 4.14 Diweddariad gan amrywiol Wasanaethau'r Cyngor

### 4.14.1 Prif dderbynfa

4.14.1.1 Lleolir prif dderbynfa/switsfwrdd y Cyngor yng Nghoed Pella, Bae Colwyn. Dynodwyd pob un o swyddi'r brif dderbynfa/switsfwrdd yn rhai Cymraeg hanfodol ac mae pob un o'r 9 aelod o staff (100%) yn siarad Cymraeg.

### 4.14.2 Venue Cymru & Theatr Colwyn

4.14.2.1 Yn ystod Cymryd Rhan, cawsom fwynhau sioeau Cyw yn fyw yn y Theatr gyda gweithdai eraill amrywiol dros y penwythnos fel Criw Celf Bach, Dawns y Glocsen, Gweithdai Cimera (Sgiliau Syrcas), Gweithdai Rownd a Rownd, Deian a Loli, Gweithdai 'Deud O', Mudiad Meithrin, Prifysgol Bangor, Gweithdai Drymio, Only Boys Aloud, Canolbwynt Cyflogaeth Conwy, Yr Urdd, Pobol y Cwm, Opera Cenedlaethol Cymru a Gweithdai Canolfan Darganfod Gwyddoniaeth Xplore.

4.14.2.2 Gŵyl Gelfyddydau i'r Teulu – cynhaliwyd 9 sesiwn grefftau gyda Lowri Lewis, 3 gweithdy gan y Theatr Genedlaethol, 3 sesiwn Caffi Babis, sesiynau Cimera (sgiliau syrcas), a 2 sesiwn gan Tape Music and Film.

### 4.14.3 Llyfrgelloedd

#### 4.14.3.1 Archifau a Llyfrgell Conwy, Canolfan Ddiwylliant

**a) Archifau:**

- Cafodd digwyddiad estyn allan yr Archifau 'Dewch i ymchwilio yn eich Archifau' ei gyflwyno gan staff yn Gymraeg i dair ysgol cyfrwng Cymraeg. Yn ystod y digwyddiad, roedd y disgyblion yn medru defnyddio defnyddiau gwreiddiol am gynefin eu hysgol a chawsom adborth gwych gan staff a dysgwyr.
- Cawsom 2 ymweliad gan ysgolion cyfrwng Cymraeg, un yn dathlu pen-blwydd yr ysgol yn 60 oed ac un yn ymwneud â thema'r Nadolig.
- Mae ysgolion cyfrwng Cymraeg wedi holi am gyflwyniadau PowerPoint rhyngweithiol am eu cynefinoedd, ac fe gafodd y rheiny eu paratoi a'u defnyddio yn Gymraeg.
- Mae un aelod o staff, sy'n ddysgwr Cymraeg uwch, wedi bod yn dod â'i dosbarth Cymraeg draw i'r Archifau am sesiynau rheolaidd yn defnyddio deunydd yn Gymraeg o gasgliadau Conwy.
- Cyflwynwyd sesiynau Hanes Busnes yn Gymraeg.

- Bu staff yn sgwrsio gydag aelodau o'r cyhoedd yn Gymraeg mewn digwyddiadau gan gynnwys Diwrnod Prom Deganwy, yr Ŵyl Hadau a'r Ffair Fêl, gan ddarparu gwybodaeth yn Gymraeg yn ogystal â rhannu taflenni dwyieithog a thaflenni gweithgareddau i blant.
- Cyflwynwyd teithiau Drysau Agored yn ddwyieithog.
- Hwyluswyd gweithgareddau'n ymwneud â Deiseb Heddwch Merched yn Gymraeg ac yn Saesneg.
- Mae gwirfoddolwr sy'n siarad Cymraeg yn gweithio ar brosiect ar y cyd â Llyfrgell Genedlaethol Cymru yn defnyddio'r Gornel Glipiau newydd yn Archifdy Conwy.
- Hwylusodd staff yr Archifdy waith ffilmio rhaglen ddogfen am droseddau go iawn yn Gymraeg gan S4C.

**b) Amgueddfeydd:**

- Cynhaliwyd gweithdai Rhyw a Rhywioldeb gan hwylusydd Cymraeg.
- Cynhaliwyd gweithdai ysgrifennu creadigol Straeon Cwiar Cymru gan hwylusydd Cymraeg.
- Cynhaliwyd gweithdai Dawns y Glocsen Gŵyl yr Amgueddfa gan hwylusydd Cymraeg.
- Bu Ysgol Penmachno yn gweithio gyda'r amgueddfa ar brosiect celf wedi'i ysbrydoli gan baentiadau yn yr amgueddfa a chan natur.
- Cynhaliwyd gweithdai animeiddio Ail-ddychmygu Tŷ'r Congo / Y Sefydliad Affricanaidd yn ddwyieithog gan hwylusydd dwyieithog.
- Mae'r Swyddog Amgueddfa yn sgwrsio gydag ymwelwyr, yn ymateb i negeseuon e-bost yn hwyluso ac yn cyflwyno gweithdai a digwyddiadau yn Gymraeg.

**c) Cyfuno:**

- Cynhaliwyd 8 sesiwn amser stori drwy gyfrwng y Gymraeg, yn ogystal â nifer fawr o sesiynau dwyieithog eraill yn ystod y flwyddyn.
- Cynhaliwyd Storïau Arswydus yn Amgueddfa Syr Henry Jones yn Gymraeg gan Gill Brownson.
- Cynhaliwyd Gwobr Celf yn Ysgol Dolwyddelan yn Gymraeg (cynhaliwyd pob Gwobr Celf arall yn ddwyieithog)

### 4.14.3.2 Gweithio gyda phlant

- Bob wythnos, rydym yn cynnal amser stori i'r plant o dan 5 oed, a sesiynau celf a chrefft dwyieithog yn rheolaidd ynghyd â chynnig Snac a Stori dros wyliau'r haf.
- Mewn cydweithrediad â Menter Iaith Conwy, cawsom gyfle gwych i fwynhau bore yng nghwmni Magi Ann a'i ffrindiau wrth iddi ddathlu ei phen-blwydd yn 4 oed. Roedd y Llyfrgell dan ei sang wrth i 73 o blant a babanod fynychu'r parti a mwynhau storïau a chaneuon yn Gymraeg, ynghyd â sesiwn crefftau.
- Mae gennym ni raglen lawn o ymweliadau ysgol ac mae'r ymweliadau yma i gyd ar gael yn y Gymraeg.
- Fe wnaethom ymweld ag Ysgol Morfa Rhianedd i ddathlu Diwrnod y Llyfr eleni. Cyflwynwyd 4 sesiwn i'r disgyblion yn sôn am ein llyfrgelloedd, am y pwysigrwydd o ddarllen ac wedyn darllen storïau a chynnal gweithgareddau.

### 4.14.3.3 Gweithgareddau ac Adnoddau ar gyfer dysgwyr

- Mae'r llyfrgelloedd yn gadarnle ar gyfer ymarfer Cymraeg ymysg staff a chwsmeriaid. Mae nifer o ddatblygiadau ychwanegol eleni, ynghyd â phrynu Lingo ar gyfer pob llyfrgell ardal.
- Mae ein sesiynau 'Panad a Sgwrs' yn parhau yn llyfrgelloedd Llandudno, Llanrwst ac Abergele. Mae gwahanol gynnwys yn cael ei baratoi ar gyfer y sesiynau. Cynhelir

sesiynau gyda themâu gwahanol, a cheir trafodaeth a gwybodaeth am y pwnc dan sylw e.e. Dydd Santes Dwynwen a Dydd Gŵyl Dewi.

- Er mwyn dathlu Dydd Gŵyl Dewi, fe wnaethom fwynhau paned a chacennau cri wrth drafod geirfa yn ymwneud â Dydd Gŵyl Dewi, sut i ynganu'r eirfa, trafod hanes yr anthem genedlaethol ac yna canu'r anthem.
- Mae'r Cylch Darllen Dysgwyr yn parhau i fod yn llwyddiannus.
- Mae Clwb Clebran Abergele yn parhau i fynd o nerth i nerth.
- Rydym ni wedi aildrefnu stoc yn Llyfrgell Abergele, a chreu gofod arbennig ar gyfer ein casgliad i unrhyw un sy'n awyddus i ddysgu'r Gymraeg neu'n gwneud hynny ar hyn o bryd.

### 4.14.4 Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg (CSGA)

4.14.4.1 Cawsom flwyddyn gyffrous iawn o ran y Gymraeg mewn Addysg – dyma ychydig o'r prif bwyntiau isod.

4.14.4.2 **Diweddariadau 2023-2024:**

- Ail-sefydlwyd Fforwm Strategol y Gymraeg mewn Addysg efo budd-ddeiliaid allweddol i gynllunio cynllun gweithredu CSGA Conwy 2022-27.
- Arolwg Estyn yr Adran Addysg – Cymraeg mewn Addysg wedi cael ei gydnabod fel cryfder.
- Cyfrannu at drafodaethau cenedlaethol efo Llywodraeth Cymru (LlC) fel bo'r galw.
- Cydlynydd Tîm Ymgynghorol y Gymraeg yn cynrychioli'r awdurdod ar:
    - bwyllgor cenedlaethol Llywodraeth Cymru ar gategoreiddio ysgolion yn ôl darpariaeth y Gymraeg.
    - pwyllgor gwaith Cymdeithas Ysgolion dros Addysg Gymraeg (CYDAG) cynradd.
    - Fforwm Iaith Conwy.
    - cyfarfodydd consortia fel bo'r angen.
- Tîm Ymgynghorol y Gymraeg a Chanolfan Iaith Conwy ar rwydwaith cenedlaethol addysg drochi.
- Diweddaru gwefan gyhoeddus Conwy a holl benaethiaid ysgolion y sir gyda gwybodaeth am y Gymraeg mewn Addysg yn Sir Conwy yn barhaus.
- Dosbarthu gwybodaeth i bob lleoliad gofal plant i'w rhannu gyda rhieni – llyfryn marchnata Menter Iaith Conwy 'Addysg Gymraeg - y gorau o ddau fyd'.
- Sefydlu rhaglen Camfa Croesi'r Bont yn rhan o raglen plethu Mudiad Meithrin a Blynyddoedd Cynnar Cymru – Llanfairfechan.
- Cydweithio ar raglen gefnogaeth bwrpasol i ysgolion penodol - Tîm Cefnogi Cyn ysgol, Mudiad Meithrin, Tîm Ymgynghorol Cymraeg mewn Addysg a Menter Iaith Conwy o ran hyfforddiant, ymweliadau arfer da, gwersi enghreifftiol, addysgeg trochi, gweithgareddau Menter Iaith Conwy.
- Grant Trochi hwyr Llywodraeth Cymru:
    - Conwy - Cefnogaeth addysgeg Trochi o fewn ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg gan gynnwys staff addysgu newydd gymhwyso.
    - Dyffryn Conwy – cefnogaeth trochi i ysgolion cynradd sy'n bwydo'r ysgol a chefnogi disgyblion sy'n hwyrddyfodiaid i addysg uwchradd.
    - Creuddyn – cynyddu darpariaeth Cynllun Trochi a hyrwyddo manteision addysg drochi gyda theuluoedd sy'n awyddus i ddilyn addysg uwchradd cyfrwng Cymraeg.
- Ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg yn rhwydweithio'n effeithiol efo ysgolion Gwynedd.
- Ymwybyddiaeth manteision y Gymraeg yn y byd gwaith trwy gyd-weithio â budd-ddeiliaid allweddol e.e. Coleg Llandrillo, Gyrfa Cymru.
- Siarter Iaith a Cymraeg Campus wedi parhau yn holl ysgolion cynradd y sir.
- Ysgolion uwchradd yn sefydlu'r drefn yn unol â datblygiadau cenedlaethol.

- Ysgol Uwchradd Aberconwy – yr ysgol uwchradd gyntaf i gyflawni gwobr efydd Cymraeg Campus.
- Ysgolion cynradd, uwchradd, arbennig ac unedau cyfeirio wedi derbyn cyllid i gyd-weithio ar brosiectau i gefnogi'r defnydd anffurfiol ac i ddatblygu'r gweithlu o fewn clystyrau:
  - Hyfforddiant i'r gweithlu cynradd ar gynllunio, addysgeg a datblygu sgiliau Cymraeg y gweithlu yng nghyd-destun Cwricwlwm i Gymru – Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu ac yn cynnwys targedau Siarter Iaith a Cymraeg Campus.
- Cynllun Sabothol Cymraeg mewn Blwyddyn i ddatblygu sgiliau ieithyddol Cymraeg y gweithlu
- Mae Conwy ac Ynys Môn yn peilota Cwrs Codi Hyder yn y Gymraeg efo Nia Parry a Dysgu Cymraeg. Rhaglen 10 wythnos i ddefnyddio'r Gymraeg yn fwy hyderus i'r gweithlu addysg, rhieni, gweithwyr ac aelodau eraill o gymuned yr ysgol.

### 4.14.5 Diweddariadau am gynllun Creu Conwy 2021-2026

- Mae pecyn Creu Conwy 'Defnyddio'r Gymraeg yn eich Busnes' ar gael i'w lawrlwytho ac mae wedi cael ei hyrwyddo drwy fforymau a rhwydweithiau busnes fel Cyrchfan Conwy.
- Mae'r Timau Trefi a ddatblygwyd yn Abergele, Bae Colwyn, Conwy, Llandudno a Llanrwst yn cael eu cefnogi i fod yn ddwyieithog gyda gwasanaethau cyfieithu / cyfieithu ar y pryd yno fel bo angen.
- Roedd sawl hwylusydd Cymraeg yn hwyluso ein gweithgareddau Diwrnod Agored ym mis Medi, gan gynnwys Dawns y Glocsen gydag Angharad Harrop ac offerynnau taro 'fynci jync' gyda Colin Daimond.
- Yn dilyn ymlaen o lwyddiant anferthol Winter Sounds 2022, roedd Creu Conwy wrth eu boddau yn creu Gigs y Gaeaf Ifanc 2024! Daeth Beacons Cymru â'u digwyddiad Basecamp i Ogledd Cymru ar 8 Mawrth 2024 gyda Tape Music and Film a Menter Iaith Conwy yn bartneriaid yn y digwyddiad. Roedd digwyddiad 'Basecamp' y diwydiant cerddoriaeth yn canolbwyntio ar arddangos a hyrwyddo'r sîn cerddoriaeth Gymraeg. Daeth 50 o bobl ifanc oedd rhwng 16 a 25 oed i'r digwyddiad. Roedd y digwyddiad yn cynnwys gweithdai gydag amrywiol unigolion o'r sîn cerddoriaeth Gymraeg.
- Mae elfen gref y Gymraeg yn parhau yn rhaglen y Pobl Ifanc Creadigol – cynhaliwyd 36 sesiwn Gymraeg.
- She Sheds – Cynhaliwyd prosiect tecstiliau yn Gymraeg gyda Cefyn Burgess.

### 4.14.6 Mwy na Geiriau

a) Fframwaith Strategol y Llywodraeth ydi cynllun 5 mlynedd Mwy Na Geiriau 2022-2027 i gryfhau darpariaeth Gymraeg ym meysydd iechyd a gofal cymdeithasol. Ei nod yw cefnogi siaradwyr Cymraeg i gael gwasanaethau yn eu dewis iaith.

b) Mae'r cynllun yn seiliedig ar y themâu a ganlyn:
   - Diwylliant ac arweinyddiaeth
   - Cynllunio a pholisïau'r Gymraeg
   - Cefnogi a datblygu sgiliau Cymraeg y gweithle
   - Rhannu arfer gorau a datblygu

c) Sefydlodd Gwasanaeth Gofal Cymdeithasol ac Addysg Conwy Grŵp Llywio Mwy Na Geiriau ym mis Rhagfyr 2022. Amcanion y grŵp yw:
   - Galluogi diwylliant iach o berthyn ar gyfer y Gymraeg ym meysydd iechyd a gofal cymdeithasol.
   - Gweithredu tystiolaeth ar gyfer Cynllun Pum Mlynedd Mwy Na Geiriau 2022-2027.

## 4.15 Sgiliau Cymraeg Staff y Cyngor

4.15.1 Ers datblygu teclyn sy'n ymddangos ar gyfrifiaduron pawb sy'n medru casglu gwybodaeth am sgiliau ieithyddol y staff gyda'r Gwasanaeth Technoleg Gwybodaeth, bu gwelliant yng nghywirdeb cofnodi ystadegau sgiliau ieithyddol staff. Bellach, mae pob aelod o staff y Cyngor yn medru defnyddio'r teclyn hwn, ac rydym, gyda chymorth y Gwasanaeth Technoleg Gwybodaeth wedi casglu gwybodaeth am bob aelod o staff erbyn hyn, gan gynnwys y rhai nad ydynt â mynediad i'r fewnrwyd. Ac eithrio ysgolion, a staff sy'n gweithio i awdurdodau eraill, mae'r awdurdod yn cyflogi 1,861 o staff parhaol. Dyma fanylion sgiliau Cymraeg y 1,861 o staff sydd wedi llenwi gwybodaeth am eu sgiliau Cymraeg:

### Sgiliau Cymraeg Staff y Cyngor:

| **Gwrando / Siarad** | | | |
|---|---|---|---|
| Lefel | | Nifer y staff | % |
| Lefel 0 | | 438 | 24 |
| Lefel 1 | DYSGU CYMRAEG | 607 | 33 |
| Lefel 2 | | 199 | 11 |
| Lefel 3 | | 138 | 7 |
| Lefel 4 | RHUGL | 174 | 9 |
| Lefel 5 | | 305 | 16 |
| | | | |
| **CYFANSWM** | | **1,861** | |

| **Darllen / Deall** | | | |
|---|---|---|---|
| Lefel | | Nifer y staff | % |
| Lefel 0 | | 405 | 22 |
| Lefel 1 | DYSGU CYMRAEG | 590 | 32 |
| Lefel 2 | | 213 | 11 |
| Lefel 3 | | 138 | 7 |
| Lefel 4 | RHUGL | 203 | 11 |
| Lefel 5 | | 312 | 17 |
| | | | |
| **CYFANSWM** | | **1,861** | |

| **Ysgrifennu** | | | |
|---|---|---|---|
| Lefel | | Nifer y staff | % |
| Lefel 0 | | 524 | 28 |
| Lefel 1 | DYSGU CYMRAEG | 568 | 31 |
| Lefel 2 | | 219 | 12 |
| Lefel 3 | | 145 | 8 |
| Lefel 4 | RHUGL | 171 | 9 |
| Lefel 5 | | 234 | 12 |
| | | | |
| **CYFANSWM** | | **1,861** | |

4.15.2 Mae staff y Cyngor wedi defnyddio'r teclyn ar y fewnrwyd i nodi eu sgiliau Cymraeg gan ddefnyddio'r tabl a welir ym Mholisi'r Gymraeg.

4.15.3 Gwelir bod 479 aelod o staff (26%) wedi nodi eu bod yn siaradwyr Cymraeg rhugl (Lefel 4 a 5) eleni.

4.15.4 Bydd lefel 0 yn diflannu o hyn ymlaen, felly byddwn yn cynorthwyo'r staff nad oes ganddynt sgiliau Cymraeg o gwbl i godi o lefel 0 i lefel 1 drwy ddefnyddio'r cyrsiau blasu ar-lein ymysg adnoddau eraill.

14.15.5 Mae canran y staff sy'n meddu ar ychydig o sgiliau Cymraeg (Lefel 1) wedi cynyddu ychydig ers y llynedd er bod y nifer wedi cynyddu'n sylweddol. Mae 51% o staff yn meddu ar sgiliau Cymraeg i ryw raddau. Mae'r cynnydd a welir yn niferoedd y staff sy'n meddu ar sgiliau Cymraeg yn rhannol oherwydd y cyrsiau Cymraeg i ddysgu / gwella eu sgiliau y bu staff yn eu dilyn yn ystod y flwyddyn.

4.15.6 Gellir gweld y dadansoddiad o sgiliau Cymraeg y Penaethiaid Gwasanaeth fesul gwasanaeth isod.

**Sgiliau Cymraeg Penaethiaid Gwasanaeth y Cyngor:**

| **Gwasanaeth** | **Cyfanswm y staff** | **Nifer sy'n siarad Cymraeg yn rhugl (Lefelau 4 a 5)** | **Canran sy'n siarad Cymraeg yn rhugl (Lefelau 4 a 5)** | **Nifer sy'n dysgu Cymraeg (Lefelau 1, 2 a 3)** | **Canran sy'n dysgu Cymraeg (Lefelau 1, 2 a 3)** | **Nifer nad oes ganddynt unrhyw allu Cymraeg (Lefel 0)** | **Canran y staff nad oes ganddynt unrhyw allu Cymraeg (Lefel 0)** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Penaethiaid Gwasanaeth** | 14 | 6 | 43% | 8 | 57% | 0 | 0 |

4.15.5.1 Mae'n galonogol iawn gweld bod bron i hanner y penaethiaid gwasanaeth yn siarad Cymraeg yn rhugl. Mae tri phennaeth gwasanaeth wedi cychwyn cyrsiau i ddysgu Cymraeg eleni ac yn defnyddio'r Gymraeg sydd ganddyn nhw'n aml iawn.

4.15.7 Gellir gweld y dadansoddiad fesul gwasanaeth ar y dudalen nesaf.

**Sgiliau Cymraeg Staff y Cyngor fesul gwasanaeth:**

| Gwasanaeth | Cyfanswm y staff | Nifer y staff sy'n siarad Cymraeg yn rhugl (Lefelau 4 a 5) | Canran y staff sy'n siarad Cymraeg yn rhugl (Lefelau 4 a 5) | Newid canran ers 2022-2023? | Nifer y staff sy'n dysgu Cymraeg (Lefelau 1, 2 a 3) | Canran y staff sy'n dysgu Cymraeg (Lefelau 1, 2 a 3) | Newid canran ers 2022-2023? | Nifer y staff nad ydynt yn deall unrhyw beth yn Gymraeg (Lefel 0) | Canran y staff nad ydynt yn deall unrhyw beth yn Gymraeg (Lefel 0) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Adran y Prif Weithredwr | 6 | 2 | 33% | -7% | 4 | 67% | -7% | 0 | 0% |
| Addysg | 183 | 59 | 32% | -4% | 82 | 45% | +1% | 42 | 23% |
| Amgylchedd, Ffyrdd a Chyfleusterau | 233 | 42 | 18% | -1% | 124 | 53% | -2% | 67 | 29% |
| Archwilio Mewnol | 11 | 2 | 18% | +3% | 8 | 73% | +11% | 1 | 9% |
| Economi a Diwylliant | 307 | 82 | 27% | -2% | 146 | 48% | Dim newid | 79 | 26% |
| Gwasanaeth Ariannol Corfforaethol | 41 | 7 | 17% | -2% | 28 | 68% | +4% | 6 | 15% |
| Gwasanaethau Cymdeithasol – Oedolion | 471 | 110 | 24% | Dim newid | 236 | 50% | +2% | 125 | 27% |
| Gwasanaethau Cymdeithasol – Plant | 213 | 56 | 26% | +1% | 82 | 38% | -2% | 75 | 35% |
| Pobl a Pherfformiad | 42 | 10 | 24% | +5% | 32 | 76% | +21% | 0 | 0% |
| Refeniw a Budd-daliadau | 62 | 18 | 29% | Dim newid | 38 | 61% | +8% | 6 | 10% |
| Rheoleiddio a Thai | 104 | 19 | 18% | -2% | 75 | 72% | +8% | 10 | 10% |
| Tai Strategol | 62 | 13 | 21% | Ni ellir cymharu – gwasanaeth newydd | 33 | 53% | Ni ellir cymharu – gwasanaeth newydd | 16 | 26% |
| Technoleg Gwybodaeth a Thrawsnewid Digidol | 67 | 14 | 21% | +2% | 43 | 64% | -1% | 10 | 15% |
| Y Gyfraith a Llywodraethu | 59 | 45 | 76% | -1% | 13 | 22% | -1% | 1 | 2% |
| **CYFANSWM** | **1,861** | **479** | **26%** | | **944** | **51%** | | **438** | **24%** |

**4.15.6** Mae dau wasanaeth yn adrodd nad oes ganddynt yr un aelod o staff ar lefel 0, h.y. nad ydynt yn meddu ar unrhyw sgiliau Cymraeg o gwbl, a bod 4 gwasanaeth arall â nifer fechan o staff ar yr un lefel. Yn sgil addasu a symleiddio eglurhad y lefelau eleni byddwn yn gofyn i bawb ailasesu eu sgiliau ddechrau'r flwyddyn nesaf.

**4.15.7** Mae'n wych bod canran yr aelodau staff nad oedd ganddynt unrhyw sgiliau Cymraeg o gwbl yn y Gwasanaeth Refeniw a Budd-daliadau a'r Gwasanaeth Rheoleiddio a Thai wedi gostwng o 18% o'u gwasanaeth i 10%, oherwydd bod nifer o staff wedi datblygu eu sgiliau o lefel 0 i lefel 1 ac uwch.

### 4.16 Recriwtio - Swyddi a hysbysebwyd yn ystod y flwyddyn

4.16.1 Mae pob swydd sy'n cael ei hysbysebu gan y Cyngor yn cynnwys dynodiad Cymraeg yn hanfodol neu Gymraeg yn ddymunol, ond ymhelaethir ar y brawddegau hyn er mwyn i'r sawl sy'n bwriadu ymgeisio am y swydd wybod yn union i ba raddau mae angen sgiliau Cymraeg. Mae'r brawddegau hyn yn cael eu teilwra wrth hysbysebu ac felly'n benodol i'r swydd sy'n cael ei hysbysebu.

4.16.2 Mae pob swydd sy'n cael ei hysbysebu yn cael ei hanfon at Wasanaeth y Gymraeg a Chyfieithu er mwyn dod i benderfyniad a ddylid hysbysebu'r swydd fel un lle bo sgiliau Cymraeg yn hanfodol ar gyfer y swydd neu lle bo sgiliau Cymraeg yn ddymunol. Mae sawl agwedd ar y swydd yn cael ei hystyried fel dyletswyddau'r swydd ynghyd â faint o siaradwyr Cymraeg sy'n gweithio yn y tîm dan sylw.

4.16.3 Dyma fanylion am nifer/canran y swyddi a hysbysebwyd yn ystod y flwyddyn lle'r oedd y Gymraeg yn hanfodol neu'n ddymunol; a nifer/canran y swyddi ym mhob categori lle penodwyd siaradwyr Cymraeg.

| **Dynodiad** | **Nifer a % fesul categori iaith** | **Nifer a % y swyddi lle penodwyd siaradwyr Cymraeg** |
|---|---|---|
| Hanfodol | 152 swydd (33%) | O'r 139 swydd a recriwtiwyd iddynt, penodwyd siaradwyr Cymraeg (lefel 4 ac uwch) i 129 ohonynt (93%).<br><br>Rydym yn siomedig iawn nad yw'r ffigwr hwn yn 100% eleni, fel ag y mae gennym yn gyson ers blynyddoedd lawer ac rydym wedi rhoi camau mewn grym i atgoffa rheolwyr am y pwysigrwydd o lenwi'r swyddi gyda staff sy'n medru siarad Cymraeg yn rhugl. Rydym yn bwriadu ychwanegu cam arall i nodi'r union lefel sydd ei hangen ym mhob un o'n hysbysebion swyddi er mwyn sicrhau nad yw hyn yn digwydd eto.<br><br>Hyd yn hyn, ni phenodwyd unrhyw un i 13 o'r swyddi hyn gan fod y broses recriwtio yn parhau. |
| Dymunol | 307 swydd (67%) | O'r 293 swydd y recriwtiwyd iddynt, roedd 188 swyddog yn siarad Cymraeg yn rhugl (64%).<br><br>Hyd yn hyn, ni phenodwyd unrhyw un i 14 o'r swyddi hyn gan fod y broses recriwtio yn parhau. |
| **CYFANSWM YM MHOB DYNODIAD** | 459 swydd | Felly, o'r 432 swydd y recriwtiwyd iddynt, penodwyd cyfanswm o 317 o siaradwyr Cymraeg rhugl, sef canran o 73%. |

**4.17 Hyfforddiant Cymraeg a Gyflawnwyd** – Gwelir isod fanylion am nifer y staff sydd wedi cael hyfforddiant yn Gymraeg i lefel o Gymhwyster penodol a nifer y staff sydd wedi cael hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith yn ystod 2023-2024.

### 4.17.1 Cyrsiau Cymraeg yn y Gweithle

| Lefel y Cwrs | Math o gwrs | Addas ar gyfer | Manylion | Cais | Cyfanswm wnaeth fynychu |
|---|---|---|---|---|---|
| Mynediad 1 | Cyfunol | Y rhai sy'n dymuno dysgu Cymraeg neu wella eu sgiliau | Cyrsiau a gynhaliwyd rhwng mis Ebrill 2023 a mis Mawrth 2024 ar gyfer pobl sy'n dymuno dysgu Cymraeg. | Dewis personol y staff | 16 |
| Mynediad 1 | 1:1 (Arweinydd y Cyngor) | | | | 1 |
| Mynediad 2 | Wyneb yn wyneb (ar-lein / dosbarth) | | | | 5 |
| Mynediad 2 | Hunan-astudio | | | | 4 |
| Sylfaen 1 | Hunan-astudio | | | | 4 |
| Sylfaen 2 | Hunan-astudio | | | | 6 |
| Canolradd | Wyneb yn wyneb (ar-lein / dosbarth) | | | | 14 |
| Uwch 1 | Wyneb yn wyneb (ar-lein / dosbarth) | | | | 9 |
| Hybu Hyder | Wyneb yn wyneb (ar-lein / dosbarth) | | | | 8 |
| Blasu | Ar-lein | | | | 11 |
| **CYFANSWM Y NIFER WNAETH FYNYCHU'R CWRS** | | | | | **78** |

### 4.17.2 Arholiadau Defnyddio'r Gymraeg – CBAC

| Arholiad | Manylion | Cyfanswm wnaeth sefyll yr arholiadau | Cyfanswm wnaeth lwyddo yn yr arholiadau |
|---|---|---|---|
| Sylfaen | Mae arholiadau 'Defnyddio'r Gymraeg' CBAC yn asesu sgiliau darllen, ysgrifennu, gwrando a siarad y rhai hynny sy'n dysgu Cymraeg, gyda 60% o'r marciau ym mhob arholiad yn cael eu rhoi am y profion siarad. Cynigir arholiadau lefel Sylfaen, Canolradd ac Uwch ym mis Mehefin bob blwyddyn, ac arholiad lefel Mynediad ym mis Mehefin ac ym mis Ionawr bob blwyddyn. | 10 | 10 |
| Canolradd | | 3 | 3 |
| **CYFANSWM Y NIFER WNAETH LWYDDO YN YR ARHOLIADAU** | | | **13** |

### 4.17.4 Amrywiol Gyrsiau a Gynigwyd /Gynhaliwyd yn Gymraeg

| Cwrs a gynigwyd | Sawl cwrs gafodd ei gynnig yn Gymraeg? | Cyfanswm wnaeth fynychu |
|---|---|---|
| Recriwtio Diogel i Reolwyr (Safon 128, (a) recriwtio a chyfweld) | Mae pob cwrs o'r fath yn cael ei gynnig yn Gymraeg ac yn Saesneg. | Ni chafodd yr un cwrs ei gynnal eleni oherwydd nad oedd unrhyw un wedi gwneud cais iddo gael ei gynnal. |
| Rheoli'r Broses Gwerthuso Staff (Safon 128, (b) rheoli perfformiad) | Mae pob cwrs o'r fath yn cael ei gynnig yn Gymraeg ac yn Saesneg. | Ni chafodd yr un cwrs ei gynnal eleni oherwydd nad oedd unrhyw un wedi gwneud cais iddo gael ei gynnal. |
| Rheoli'r Broses Ddisgyblu (Safon 128, (c) gweithdrefnau cwyno a disgyblu) | Mae pob cwrs o'r fath yn cael ei gynnig yn Gymraeg ac yn Saesneg. | Ni chafodd yr un cwrs ei gynnal eleni oherwydd nad oedd unrhyw un wedi gwneud cais iddo gael ei gynnal. |
| Iechyd a Diogelwch Corfforaethol (Safon 128, (dd) iechyd a diogelwch) | Mae pob cwrs o'r fath yn cael ei gynnig yn Gymraeg ac yn Saesneg. | Ni chafodd yr un cwrs ei gynnal eleni oherwydd nad oedd unrhyw un wedi gwneud cais iddo gael ei gynnal. |

### 4.17.5 Sesiwn Gyflwyno Gorfforaethol / Ymwybyddiaeth Iaith

| Dyddiad / Hyd y cwrs | Addas ar gyfer | Manylion | Cais | Cyfanswm wnaeth fynychu |
|---|---|---|---|---|
| 10/5/2023 | Aelodau newydd o staff – (Dylai pob aelod o staff newydd fynychu'r cyflwyniad corfforaethol o fewn 6 mis o ddechrau gweithio gyda'r Cyngor.) | Caiff y swyddogion anerchiad gan y Prif Weithredwr, gyda rhan o'r anerchiad yn Gymraeg. Mae rhai o'r cyflwyniadau yn ystod y sesiwn hanner diwrnod yn cael eu cyflwyno yn Gymraeg, gan gynnwys cyflwyniad gan Wasanaeth y Gymraeg a Chyfieithu am weithredu Safonau'r Gymraeg, y Cymorth a'r Gefnogaeth sydd ar gael, defnyddio'r Gymraeg yn fewnol ac ymwybyddiaeth a hanes yr iaith **(Staff o amrywiol wasanaethau Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy)** | Gorfodol i bob aelod newydd o staff sy'n cychwyn gweithio gyda'r Cyngor | 37 |
| 22/5/2023 | | | | 35 |
| 13/9/2023 | | | | 41 |
| 15/11/2023 | | | | 38 |
| 26/01/2024 | | | | 41 |
| **CYFANSWM Y NIFER WNAETH FYNYCHU'R CWRS** | | | | **192** |

4.17.6 Gwelir o'r ystadegau uchod bod 192 o aelodau staff wedi cael gwybodaeth ymwybyddiaeth iaith eleni.

## 5.0. Cadw Cofnodion

### 5.1 Cwynion

5.1.1 Mae modd i'r cyhoedd wneud cwyn drwy wefan y Cyngor neu'n uniongyrchol at Reolwr Gwasanaeth y Gymraeg a Chyfieithu neu'r Swyddog Hyrwyddo a Datblygu'r Gymraeg. Bydd pob cwyn yn cael ei chofnodi ar system gwynion y Cyngor.

5.1.2 Cafwyd un gŵyn yn ystod 2023-2024.

| | |
|---|---|
| **Dyddiad** | 26/06/2023 |
| **Cyfeirnod** | GF126399 |
| **Natur y Gŵyn** | Cwyn gan aelod o'r cyhoedd am boster gwallus. |
| **Yn ymwneud â pha wasanaeth** | Venue Cymru |
| **Crynodeb o'r gŵyn, y camau a gymerwyd, a'r modd y cafodd ei datrys** | Cysylltodd aelod o'r Cyngor gyda chwyn am boster gwallus a welwyd yn Venue Cymru.<br><br>Yn anffodus, yr oedd aelod o staff di-Gymraeg wedi cyfieithu'r poster ar frys cyn sioe gyda'r nos pan nad oedd cyfieithwyr y Cyngor yn gweithio.<br><br>Tynnwyd y poster gwallus i lawr a chyfieithwyd y poster gan Wasanaeth Cyfieithu'r Cyngor yn barod ar gyfer y tro nesaf.<br><br>Atgoffwyd y tîm am y broses arferol fel na fydd yn codi eto. |

### 5.2 Ymchwiliad gan Gomisiynydd y Gymraeg

5.2.1 Mae modd i'r cyhoedd gwyno'n uniongyrchol gyda Chomisiynydd y Gymraeg hefyd, a chafodd un gŵyn ei hanfon atynt eleni, mae'r manylion isod.

| | |
|---|---|
| **Dyddiad** | 19/03/2024 |
| **Cyfeirnod Comisiynydd y Gymraeg** | CS1244 |
| **Natur y Gŵyn a anfonwyd at Gomisiynydd y Gymraeg** | Ymgynghoriad ar drafnidiaeth am ddim i ysgolion uwchradd Cymraeg Sir Conwy. |
| **Ymateb y Cyngor** | Disgynnodd yr adran cludiant ysgol ar eu bai, roedd diffygion gyda'r ymgynghoriad cychwynnol, ond, pan dynnwyd ein sylw at hyn, buom yn gweithio gyda thîm Comisiynydd y Gymraeg ac fe wnaethom ddiwygio'r ymgynghoriad yn unol â'r argymhellion a wnaed.<br><br>Roedd y newidiadau yn cynnwys diweddaru'r effaith o gael gwared ar nawdd anstatudol ar gyfer addysg Gymraeg o'r Ffurflen Asesu Effaith ar Gydraddoldeb a diweddariadau i gwestiynau'r arolwg, yn cynnwys adran ar yr effaith y gallai |

| | |
|---|---|
| | unrhyw newidiadau i'r polisi cyfredol ei chael ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.<br><br>Fe wnaeth yr adran ymestyn terfyn amser ymateb i'r holiadur er mwyn rhoi cyfle i fudd-ddeiliaid ystyried y ddogfen wedi'i diwygio.<br><br>Mae'r Cyngor hefyd wedi diweddaru eu ffurflen asesu effaith ar gydraddoldeb er mwyn gwneud yn siŵr bod Rheolwr Gwasanaeth y Gymraeg a Chyfieithu a'r Swyddog Hyrwyddo a Datblygu'r Gymraeg yn cael copïau o bob ffurflen berthnasol er mwyn gwirio'r cynnwys a chynnig cyngor pan fo angen. |
| **Canlyniad** | Ymchwiliad yn parhau |

## 6.0 Casgliadau ac argymhellion/camau gweithredu

6.1 Bu’n hynod o braf gweld cymaint o ddatblygiadau a llwyddiannau yn mynd o nerth i nerth yn ystod y flwyddyn.

6.2 Rydym yn ymfalchïo yn llwyddiant ein gwersi Cymraeg a’r Cynllun Sgwrsio ac edrychwn ymlaen at ddatblygu’r cynllun yn ystod y misoedd nesaf. Mae hi’n wych clywed am gynnydd y dysgwyr wrth ddefnyddio eu sgiliau Cymraeg yn y gweithle a thu hwnt hefyd.

6.3 Bu hefyd yn wych gweld gymaint o ddigwyddiadau yn Gymraeg yn cael eu cynnal gan ein gwasanaethau, gyda llawer mwy ar y gweill dros y flwyddyn nesaf.

6.4 Rydym yn edrych ymlaen at roi ein Strategaeth y Gymraeg newydd – Ein Llais Cymraeg ar waith yn ystod y flwyddyn nesaf.